16. EIDDO
(Stori o'r bumed ganrif)

Petaech chi'n cyfarfod Brigid am y tro cyntaf fyddech chi byth yn dyfalu mai caethferch oedd hi. Roedd rhywbeth yn ei hosgo; roedd hi mor hapus a rhydd.

Un tro, tra oedd yn bugeilio'r defaid, gofynnodd cardotyn iddi am gymorth. Er nad oedd ganddi arian, allai hi ddim dioddef ei anfon i ffwrdd yn waglaw. Felly, rhoddodd un o ddefaid ei meistr iddo. Dro arall, tra oedd yn coginio pum darn o facwn i bum gwestai daeth ci ati i ymbil am fwyd.

Roedd y gwesteion yn edrych fel petaent wedi bwyta hen ddigon, ond roedd y ci yn llwgu. Gallwch ddychmygu beth ddigwyddodd i'r pumed darn o facwn.

Wrth gwrs, doedd y math hwn o ymddygiad ddim yn plesio ei meistres.

'Mae'r ferch yma'n boen, Duthbach,' meddai wrth ei gŵr. 'Rhaid i ti gael gwared arni,' gorchmynnodd.

Yn ôl traddodiad, Duthbach oedd tad Brigid. Ond nid oedd yn dad y gellid dibynnu arno mewn argyfwng. Caethferch iddo oedd mam Brigid hefyd ond roedd Duthbach eisoes wedi ei gwerthu hi. Yn awr tybiai na châi unrhyw heddwch oni wnâi yr un peth â Brigid.

Wrthi'n malu corn â'r llawfelin yr oedd Brigid y dydd y penderfynodd Duthbach ei gwerthu.

'Casgla dy bethau at ei gilydd a tyrd i mewn i'r cerbyd yma,' meddai

Duthbach wrthi. Llamodd i fyny a'i llygaid yn disgleirio. O mor braf fyddai cael diwrnod yn rhydd o'r hen waith diflas. Wrth i'r cerbyd ruo i ffwrdd roedd yn llawn cyffro a'i thafod yn mynd fel melin bupur.

'O! Rwy'n falch o gael dod gyda chi,' meddai. 'Mae'n ddiwrnod hyfryd!' Un di-flewyn-ar-dafod fu Duthbach erioed ac ni cheisiodd fod yn garedig wrth dorri'r newydd drwg iddi. Wedi'r cyfan, nid poeni am deimladau pobl oedd gwaith pennaeth rhyfelgar.

'Rwy'n mynd i dy werthu,' mwmiodd dan ei wynt. 'O hyn ymlaen byddi'n llafurio melinau'r Brenin.' Fedrai Brigid ddim cuddio ei siom. Suddodd i'w sedd a thynnu'i chlogyn yn dynn amdani. Chafodd hi erioed unrhyw siawns i wneud penderfyniadau ynglŷn â'i bywyd. I ddechrau, roeddynt wedi dwyn ei mam oddi arni ac yn awr byddai'n colli'r unig deulu a adnabu erioed. Cododd ei golygon tua'r nef gan wybod na fyddai ei Thad nefol byth yn ei gadael. Gweddïodd yn dawel hyd nes i'r cerbyd sefyll yn ei unfan tu allan i gastell y Brenin.

'Aros yma nes i mi ddod yn ôl,' gorchmynnodd Duthbach wrth i Brigid gychwyn allan o'r cerbyd. Roedd am gael cyfle i fargeinio ychydig. Os oedd rhaid gwerthu'r ferch yna roedd am gael pris da amdani. Ychydig funudau'n ddiweddarach roedd wrthi'n canu clodydd Brigid i Frenin Leinster. Roedd hi'n ferch a weithiai'n galed ... roedd hi'n gryf ... yn ddeallus ... yn fedrus ...

'Os yw hi cystal ag rwyt ti'n ddweud pam wyt ti mor awyddus i'w gwerthu?' holodd y Brenin.

Roedd hwn yn gwestiwn anodd. Pesychodd Duthbach yn nerfus. 'Rwy'n ei gwerthu ... ym ... oherwydd bod angen disgyblaeth arni.'

'Anodd i'w thrin yw hi?'

'O, na. I'r gwrthwyneb. Mae'n ferch ufudd radlon. Y peth yw ... wel ... weithiau mae hi braidd yn ddi-feddwl.'

'Beth wyt ti'n ei feddwl?'

'Weithiau – ddim yn aml, cofia – mae hi'n fyrbwyll.'

Tra oedd y ddau'n trafod y tu fewn i'r castell herciodd dyn gwahanglwyfus draw at gerbyd Duthbach. Dyn tal ifanc ydoedd ond roedd ei gorff wedi ei anharddu gan y gwahanglwyf. Llanwyd calon Brigid â thosturi pan welodd ei ddwylo afluniaidd.

'Helpa fi, helpa fi,' ymbiliodd y dyn.

Beth roedd hi'n mynd i'w wneud? Fel arfer nid oedd ganddi unrhyw eiddo i'w gynnig iddo – dim modrwyau, dim aur.

Yna, o flaen ei llygaid, gwelodd yr union beth – trysor disglair ac arno emau gwerthfawr. Heb betruso eiliad fe'i cyflwynodd iddo. 'Dyna ti, fe

gei di hwn.'

'Diolch i ti. Duw a'th fendithia.' Gyda'i lygaid yn llawn syndod a boddhad, i ffwrdd ag ef â'i drysor.

'Fe wnest ti beth?' Prin y medrai Duthbach gredu ei lygaid pan eglurodd hi beth ddigwyddodd, a phrin y gallai yngan gair gan gymaint ei gynddaredd. 'Ti ... ti wedi rhoi 'nghleddyf i i wahanglwyf? Fy nghleddyf i! Oes unrhyw syniad gennyt mor werthfawr ydoedd?'

Wnaeth ymateb addfwyn Brigid ond ei gynddeiriogi fwyfwy. 'Wel, oherwydd ei fod o mor werthfawr y penderfynais ei roi i Dduw,' dywedodd dro ar ôl tro.

Gan na wyddai Duthbach beth i'w wneud fe'i llusgodd o flaen y brenin. 'Mae hi'n haeddu cael ei chwipio ... ei churo ...' rhuodd.

Cododd brenin Leinster ei aeliau. Yr oedd yn filwr glew ac wedi ymladd sawl brwydr dros eiddo a chyfraith. Ond yr oedd wedi clywed digon o'r Efengyl Gristnogol i wybod fod yna ffordd arall o edrych ar bethau: ffordd oedd yn gwbl groes i werthoedd materol y byd – ffordd y gaethferch hon a'i llygaid disglair.

'Gad lonydd iddi,' meddai'n flin. 'Y mae ei safle hi o flaen Duw yn uwch na ni.'

Gwyddai Duthbach ei fod wedi ei drechu. Doedd dim pwrpas ceisio gwerthu Brigid ychwaith. Fedrai o ddim mynd â hi yn ôl adref fel caethferch. Felly caniataodd iddi gael ei rhyddid. Wedi'r cyfan, cysurodd ei hun wrth gychwyn am adref heb ei gleddyf gwerthfawr, eiddo Brenin y brenhinoedd a fu Brigid erioed. Mewn gwirionedd, fu'r ferch erioed yn eiddo iddo ef o gwbl.

HYD: 5–6 munud

NEGES: Daw gwir ryddid trwy berthyn i Dduw.

DARLLEN: Ioan 17: 6–19; Malachi 3: 17

GWYBODAETH YCHWANEGOL:
Yr oedd y santes Brigid yn byw yn ystod ail hanner y bumed ganrif. Mae prinder gwybodaeth ffeithiol am ei bywyd a daw'r rhan fwyaf o'r hyn a wyddom amdani o chwedloniaeth llên gwerin. Caiff ei phortreadu fel merch hynod hael a dywedir ei bod wedi sefydlu cymunedau yn Iwerddon.